**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our Ref: MA-P-VG-1568-17

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

13 Mehefin 2017

Annwyl gyfaill,

Ddydd Mawrth 16 Mai, mewn ymateb i fy Natganiad Llafar ar Ofal Diwedd Oes, cytunais i ysgrifennu atoch ynghylch y rhaglen Sgwrsio am Salwch Difrifol a faint o unigolion sydd wedi cael hyfforddiant o dan y rhaglen hon.

Amcan y rhaglen yw rhoi sgiliau cyfathrebu sylfaenol i staff gofal iechyd sy'n ymdrin â phob agwedd ar salwch difrifol ac sy'n rhoi gofal i gleifion sy'n marw fel rhan o'u gwaith bob dydd, ond nad ydynt yn staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn gofal lliniarol arbenigol nac yn gweithio yn y maes hwnnw.

Roedd cam cyntaf yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar weithwyr proffesiynol yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Nyrsys Arbenigol mewn Rhoi Organau. Roedd yr ail gam wedyn yn ymestyn yr hyfforddiant i gynnwys timau Gofal mewn Argyfwng a Gofal Dwys. Yn fwy diweddar, rhoddwyd yr hyfforddiant i swyddogion carchar hefyd.

Hyd yn hyn, mae 193 o unigolion wedi cael eu hyfforddi a bu'r adborth yn gadarnhaol, gyda llawer ohonynt yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus a bod yr hyfforddiant wedi rhoi'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i siarad â chleifion a'u perthnasau wrth drafod a rhoi newyddion drwg. Mae dadansoddiad yn ôl ardal a phroffesiwn i'w weld yn Atodiad A.

Mae £1 miliwn ychwanegol wedi ei roi i'r Bwrdd Gweithredu ar Ofal Diwedd Oes yn 2017-18 er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal diwedd oes. Defnyddir rhan o'r cyllid hwn i barhau i ymestyn y Rhaglen Sgwrsio am Salwch Difrifol ar draws Cymru, er mwyn rhoi hyfforddiant i 400 o unigolion eraill.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A**

Yr Ystadegau ar gyfer Sgwrsio am Salwch Difrifol

Hyfforddiant fesul Bwrdd Iechyd/Lleoliad

| **Bwrdd Iechyd /lleoliad** | Nifer sydd wedi derbyn hyfforddiant |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladar | 33 |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 37 |
| Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg | 24 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 33 |
| Bwrdd Iechyd Cwm Taf | 7 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 22 |
| Powys | 2 |
| Y rhai a ddisgrifiodd eu hunain fel 'Cymru Gyfan' | 31 |
| Henffordd | 2 |
| Y tu allan i Gymru | 2 |
| **Cyfanswm** | **193** |

Hyfforddiant yn ôl rôl

| **Rôl** | Nifer sydd wedi derbyn hyfforddiant |
|---|---|
| Parafeddyg / Technegydd Meddygol Brys/ Cludo Cleifion heblaw Cleifion Brys | 117 |
| Nyrs Arbenigol mewn Rhoi Organau / Arweinydd Clinigol/ Timau Trawsblannu | 57 |
| Staff mewn Carchardai | 15 |
| Eraill | 3 |
| **Cyfanswm** | **193** |